RHONDDA CYNON TAF

Perchennog/Meddiannydd

**Fy Nghyf / My Ref: IF186/2022** **Dyddiad/Date: 21 Mawrth 2022**

Annwyl Syr/Madam,

Mae'r Cyngor eisiau gwneud nifer o welliannau priffyrdd ledled Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys gwella diogelwch ar y ffyrdd ac annog teithio llesol. Yn sgil hynny mae'r Cyngor wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am arian brys ac wedi bod yn llwyddiannus.

Rhan o ymateb y Cyngor oedd ystyried sut i wella diogelwch o amgylch ysgolion ac edrych ar ba fesurau y byddai modd eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnodau codi a gollwng plant pan mae strydoedd o amgylch ysgolion yn brysur iawn gyda cherbydau.

Mae'r Cyngor felly'n bwriadu gweithredu gorchymyn gwahardd gyrru arbrofol mewn ardaloedd o amgylch nifer o ysgolion ar draws RhCT, gan gynnwys Ysgol Gynradd Pontrhondda.

Bydd y gwaharddiad cyfyngu ar yrru yn cael ei weithredu yn ystod y tymor yn unig rhwng 8:30am a 9:30am a rhwng 2:00pm a 3:30yp o ddydd Llun tan ddydd Gwener. Bwriad sylfaenol y cynllun yw creu amgylchedd mwy diogel yn ystod y cyfnod pan mae plant yn cael eu codi a'u gollwng o'r ysgol ac annog mwy o blant a rhieni i gerdded i'r ysgol. Dydy hynny ddim yn golygu ein bod ni'n credu y dylai rhieni a phlant gerdded ar y ffordd.

Rydyn ni'n cydnabod nad yw hi'n bosibl creu parth hollol ddi-draffig ac mae angen rhai eithriadau.

Bydd yr eithriadau yma'n cynnwys:-

Preswylwyr
Athrawon/Staff Ysgolion
Disgyblion sydd ddim yn gallu cerdded i'r ysgol oherwydd eu hanghenion addysgol arbennig, anabledd neu broblemau symudedd – i'w benderfynu gan y Pennaeth neu'r AALl
Bysiau wedi'u contractio i gludo plant i'r ysgol
Deiliaid Bathodynnau Glas
Gweithwyr gofal iechyd a gwarcheidwaid
Gwasanaeth Post
Cerbydau sy'n gollwng nwyddau i'r ysgol
Cerbydau'r Gwasanaethau Brys
Cerbydau adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel
Cerbydau Ymgymerwyr Statudol
Cerbydau Awdurdod Lleol gan gynnwys cerbydau sbwriel

Trosodd

**Gwasanaethau Rheng-flaen**
**Frontline Services**
Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Roger Waters BSc CEng MICE**
**Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng-flaen | Director – Frontline Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

DIOGELU DATA PROTECTION
MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

Mantais Gorchymyn Arbrofol yw ei fod yn rhoi cyfle i breswylwyr i dreialu'r gorchymyn yn uniongyrchol, i weld sut bydd y trefniant cau yn gweithredu dros amser. Yn dilyn hynny, mae cyfle i breswylwyr gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r newidiadau hyd at chwe mis o ddyddiad ei weithredu. Yna, mae gan y Cyngor chwe mis arall i ystyried yr holl ymatebion a ddaeth i law cyn gorfod penderfynu a ddylid cau'r safle'n barhaol neu wneud newidiadau pellach yn unol â barn y gymuned. Mae modd i'r gorchymyn arbrofol fod yn ei le am hyd at 18 mis cyn bod rhaid penderfynu a ddylid ei wneud yn barhaol ai peidio. Mae hefyd modd ei ddileu neu ei ddiwygio ar unwaith os bydd angen gwneud hynny.

Mae manylion y cynlluniau arfaethedig yn y lluniau sydd wedi'u cynnwys.

Y cynnig yw cyflwyno'r mesurau hyn o 28 Mawrth 2022. Mae eich sylwadau chi'n bwysig iawn i'r Cyngor a byddaf i'n falch o glywed eich barn am y cynlluniau arfaethedig yma dros y misoedd nesaf. Pe hoffech chi wneud sylw, dylech wneud hynny mewn du a gwyn (o fewn chwe mis ar ôl rhoi'r newidiadau ar waith). Ysgrifennwch at Y Rheolwr Traffig, Uned Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Sardis Road, CF37 1DU. Fel arall, anfonwch e-bost sy'n nodi eich sylwadau at: gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk

Cofion

Andrew McGowan
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig
Senior Engineer, Traffic Management

Owner / Occupier

**Fy Nghyf/My Ref: IF186/2022** **Dyddiad/ Date: 21 March 2022**

Dear Sir / Madam,

The council has been successful in a bid to the Welsh Government for emergency funding for the provision of a number of highway improvements across Rhondda Cynon Taf in relation to improving road safety and encouraging active travel.

Part of the councils' response was to consider how to improve safety around schools and to look at what measures could be implemented during school pick up and drop off time when school streets are very busy with vehicles.

The council is therefore looking to implement an experimental prohibition of driving order in areas surrounding several schools across RCT, one of which is Pontrhondda Primary School.

The prohibition of driving restriction will be in place from 8:30 – 9:30am and from 2:00 – 3;30pm Monday to Friday in term time only, with the primary intention to create a safer environment during the school pick up and drop off period and encourage more children and parents to walk to school. It is not the intention to advocate that children and parents use the carriageway to walk on.

It is acknowledged that it is not possible to create a completely traffic free zone and some exemptions are required.

These exemptions will include:-

Residents
Teachers / School Staff
Pupils unable to walk to school because of their Special Education Needs, disability or mobility problems – to be determined by the Headteacher or LEA
Buses contracted to attend the school
Blue Badge holders
Healthcare workers and carers
Postal services
Deliveries
Emergency Service Vehicles
Building, industrial or demolition vehicles
Statutory Undertaker vehicles
Local Authority vehicles including refuse

PTO

The benefit of an Experimental Order is that it provides residents with a trial opportunity to see first-hand how the closure will operate over time and submit comments in respect to the changes up to six months from the date of its implementation following which the Council has a further six months to then consider all responses received before having to make the decision as to whether to make the closure permanent or make further changes in accordance with the views of the community. The experimental order can be in place for up to 18 months before a decision has to be made on whether or not it should be made permanent. It can also be removed or amended with immediate effect should it be considered necessary to do so.

Details of the proposals are shown on the attached plan.

It is proposed to introduce these measures from 28th March 2022. Your comments are important to the Council and I shall be pleased to receive your observations on these proposals over the coming months. Should you wish to comment, you should do so in writing (within six months of implementation) to the Traffic Manager, Traffic Management, Sardis House, Sardis Road, CF37 1DU. Alternatively you may email your comments to trafficservices@rctcbc.gov.uk

Regards

Andrew McGowan
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig
Senior Engineer,Traffic Management